38. CYFRINACH AH TEE
(Stori o Singapore)

Am saith o'r gloch y bore ar y 1af o Ionawr, roedd Ah Tee wrthi'n paratoi ar gyfer ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol uwchradd. Yn eiddgar, gwisgodd ei drowsus hir glas amdano, gan deimlo'n dal ac aeddfed. Cyn hynny, fel pob plentyn cynradd yn Singapore, bu'n rhaid gwisgo trowsus byr coch i fynd i'r ysgol.

Gwenodd Mr a Mrs Tan yn falch wrth ei weld.

'Fe gei di addysg dda yn yr ysgol eglwysig, Ah Tee,' dywedodd ei fam. 'Ond cofia, dyw dy dad a finnau ddim eisiau dy glywed yn canu caneuon Cristnogol nac yn darllen straeon o'r Beibl. Crefydd i estroniaid yw Cristnogaeth.'

Teimlai Ah Tee'n anghyfforddus – roedd ei fam wedi rhoi rhywbeth stiff yn ei drowsus newydd.

'Mae bron yn chwarter wedi saith,' meddai'r bachgen yn sydyn. 'Gwell i mi fynd.'

'Pam fod yn rhaid i fywyd fod mor anodd?' meddyliodd wrth gerdded tuag at adeilad llwydaidd yr ysgol. Roedd ei fam yn poeni hyd yn oed oherwydd ei fod yn *mynychu* ysgol eglwysig. Sut ar y ddaear felly y gallai ddweud wrthi ei fod wedi dod yn Gristion?

Roedd yr ysgol eglwysig yn adeilad newydd sbon. Roedd pawb

– gan gynnwys yr athrawon – yn cael trafferth yr wythnos gyntaf yn canfod eu ffordd o amgylch yr ysgol. Ond i Ah Tee yr hyn oedd orau ganddo oedd ei fod yn dod ar draws Cristnogion newydd o hyd. Am y tro cyntaf ers dod i adnabod Iesu Grist mewn clwb plant y flwyddyn flaenorol doedd o ddim yn teimlo'n od ac allan o'i le. O'r diwedd cawsai gyfle i sgwrsio am y problemau o orfod cuddio eich ffydd gyda rhai oedd yn deall.

'Dim ond canolbwyntio ar weddïo dros dy rieni a dy chwaer sydd eisiau i ti wneud i ddechrau,' cynghorodd un athro ef. 'Feŵyr Duw y cyfan amdanat, ac mae'n dy garu di a dy deulu'n fawr iawn.'

Ychydig wythnosau'n ddiweddarach yr oedd yn adeg y flwyddyn newydd Tsieineaidd – dathliad teuluol mawr yn Singapore. Dyma adeg pryd y byddai pawb yn ymddiheuro am eu camgymeriadau ac yn ysgubo tai ac yn glanhau fflatiau i gael gwared o unrhyw lwc ddrwg o'r flwyddyn flaenorol. Wrth gwrs, ni chredai Ah Tee mewn lwc ddrwg yn awr – ond roedd yn parhau i fod yn ymwybodol fod ganddo wendidau.

'Mae'n ddrwg gen i 'mod i'n tynnu arnat ti o hyd,' meddai wrth ei chwaer Ah Chiu.

'Mae'n arw gen i beidio â thacluso fy llofft,' meddai wrth ei fam.

Dechreuodd weddïo y byddai cariad Duw yn llenwi ei gartef – a chyn bo hir roedd newidiadau i'w gweld. Nawr ei fod yn gweddïo tros ei fam roedd yn fwy tebygol o sylwi pan oedd hi wedi blino, a gweld pethau y gallai ef eu gwneud i'w helpu. Nawr ei fod yn gweddïo tros ei dad nid oedd angen i hwnnw bellach ei atgoffa ddeg gwaith bob tro cyn iddo ufuddhau i Mr Tan. Nawr ei fod yn gweddïo dros ei chwaer ni theimlai'r un ysfa i dynnu arni. Mewn gair, y flwyddyn newydd honno, gwelwyd newid dramatig yn ei gymeriad.

'Am beth mae o'n chwilio?' meddyliodd Ah Chiu.

'Beth sydd wedi dod drosto fo?' holai Mr a Mrs Tan.

Sawl tro bu Ah Tee bron â dweud wrthynt am ei ffydd. Ond rywfodd fedrai o byth ddod o hyd i'r geiriau iawn i egluro.

'Yn yr ysgol, pan fyddwn ni'n trafod, mae gen i fwy i'w ddweud na neb. Eto, gartref, mae fel petai 'nhafod i wedi rhwymo,' dywedodd wrth ei gyfeillion Cristnogol. 'Weithiau dwi'n teimlo

'mod i'n gadael Duw i lawr.'

'Na, dwyt ti ddim. Mae'r ffordd rwyt ti'n ymddwyn yn dweud llawer mwy nag y gallai mil o eiriau,' eglurodd caplan yr ysgol iddo. 'Ac fe ddaw'r foment iawn i ddweud wrth dy rieni . . .'

Ychydig wythnosau'n ddiweddarach roedd Ah Tee'n eistedd o amgylch y bwrdd gyda'i deulu yn bwyta'u pryd min nos.

'Unrhyw beth i'w ddweud?' holodd Mr Tan.

Gofynnai'r cwestiwn hwn bron bob dydd. Ond heddiw yn hytrach na rhoi ei ateb gofalus arferol, tynnodd Ah Tee anadl ddofn. 'Wel, oes – mae yna rywbeth,' meddai'n ddigynnwrf. 'Mae yna wasanaeth Cristnogol yn yr ysgol ar y Sul. Fe ddois i'n Gristion flwyddyn yn ôl ac fe hoffwn i fynd.'

Os rhyfeddwyd Ah Tee gan ei ddewrder ef ei hun, roedd yn rhyfeddu fwy fyth at ymateb ei rieni. Yr oedd wedi disgwyl iddynt wylltio'n gacwn. Ond yn lle hynny ymddangosai fel petaent yn fodlon derbyn ei newydd.

'Nid Iesu yw ein crefydd ni,' meddai ei dad. 'Ac fe fyddai'n well gennym ni i ti ddilyn ein hesiampl ni. Ond, ryden ni'n hapus iawn hefo'r cynnydd yr wyt ti wedi ei wneud yn yr ysgol.'

'Ac ryden ni'n gwerthfawrogi'r ffaith dy fod yn ymddwyn mor dda gartref,' ychwanegodd ei fam.

'Felly,' meddai Mr Tan, 'ryden ni'n fodlon i ti fynychu'r gwasanaethau Cristnogol am gyfnod ac fe gawn weld sut yr aiff pethau.'

Y Sul hwnnw gadawodd Ah Tee'r fflat gan deimlo fel petai yn ei seithfed nef. Yr oedd cariad Duw wedi cyflawni gwyrthiau. Dyma lle roedd o'n cael mynd i'w wasanaeth eglwysig cyntaf.

Ond y peth gorau oll oedd nad oedd yn rhaid iddo gadw'i gyfrinach mwyach!

HYD: 4–5 munud

NEGES: Mae Duw am i ni rannu ei gariad â'r rhai sydd agosaf atom – ond rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn dangos y cariad hwnnw i ddechrau!

DARLLEN: Ioan 3: 1–2; 19: 38–39